

CLWB MYNYDDA CYMRU  
CYFARFOD BLYNYDDOL 2014– 6:00 y h., 22 TACHWEDD 2014  
GWESTY FICTORIA, LLANBERIS

**1. Croeso/Cadeirydd**

Croesawodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yr aelodau i'r Cyfarfod Blynyddol ac adroddodd nad oedd Rhys Dafis cadeirydd y Clwb am y 2 flynedd diwethaf ac yn gorffen ei dymor yn y cyfarfod, yn anffodus yn gallu bod yn bresennol. Yn sgil hynny gofynnodd i'r aelodau gytuno i ddod â'r eitem Ethol Cadeirydd Newydd yn ei flaen fel y gellid cael cadeirydd i'r cyfarfod.

Cytunwyd i ethol Richard Roberts fel Cadeirydd y Clwb am y cyfnod 2015 a 2016.

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod. Nododd fod y cyfarfod yn hwyr yn cychwyn oherwydd bod nifer o aelodau wedi eu dal yn ôl ar ddiwedd y daith heddiw gan fod Dafydd (Legal) Jones wedi cael codwm wrth ddod i lawr Elidir Fawr. Daethpwyd ag ef i lawr o'r mynydd gan Dim Achub Llanberis a'i gludo i Ysbyty Gwynedd. Diolchodd i'r Tim Achub am eu cymorth ac ar ran yr aelodau dymunodd adferiad llwyr a buan i Dafydd.

Diolchodd i Rhys am ei waith fel Cadeirydd dros y 2 flynedd diwethaf a mynegodd ei werthfawrogiad am yr anrhydedd o gael ei ethol yn Gadeirydd Clwb oedd yn agos iawn at ei galon.

**2. Ymddiheuriadau :**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhys Dafis, Iolo ap Gwynn, Anet Thomas, Cliff Mathews

**3. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2013**

Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Clwb a gynhaliwyd ar 26 Hydref, 2013 yn Plas yn Dre, Y Bala fel rhai cywir.

**4. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth.**

Adroddodd Iolo fod y Pwyllgor wedi cwrdd dair gwaith eleni, yn ystod penwythnos Rhyd Ddu (lonawr), Ebrill ym Methesda a Hydref yn Capel Curig

Rhai o'r materion a gafodd sylw:

1. Mynyddoedd Pawb – ymgyrch wedi ei dechrau gan Mari Gwent (merch Llew) i ddiogelu a gwarchod enwau mynyddoedd a nodweddion eraill y tirlun yng Nghymru. Mae Pwyllgor Llywio wedi ei sefydlu ac Eryl yn cynrychioli y Pwyllgor/Clwb arno.

Mae cynllun ar y gweill i ddatblygu gwefan fydd yn rhoi gwybodaeth am enwau mynyddoedd eu hanes a'u cefndir. Bwriedir hefyd ddatblygu AP ar gyfer ffonau a fyddai yn sicrhau fod y wybodaeth ar gael yn y fan a'r lle ar y mynyddoedd.

Awdurdododd y pwyllgor gyfraniad o £275 (cyfranwyd yr un swm gan CMP/Plas Menai a Phlas y Brenin) i alluogi'r prosiect gael arian grant "pant am bunt". Ym mis Hydref, cytunodd

y pwyllgor i roi swm o £250 i'r prosiect i'w cynorthwyo gyda'r gost o drefnu cynhadledd a fydd yn digwydd yn y flwyddyn newydd

2. Darlith Flynyddol y Clwb yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Traddodwyd y ddarlith eleni yn Llanelli gan Arwel Michael ar Enwau Mynyddoedd Sir Gar/Y Bannau. Roedd problemau gyda'r trefniadau ymarferol – lleoliad anaddas Pabell y Cymdeithasau, digwyddiad blaenorol yn hwyr yn gorffen ayyb, wedi creu sefyllfa annifyr i ni fel trefnwyr y ddarlith, Arwel a'r gynulleidfa. Teimla'r pwyllgor yn anhapus iawn hefo'r hyn a ddigwyddodd ac anfonwyd llythyr at yr Eisteddfod yn mynegi eu pryderon ac yn gofyn iddynt ail-edrych ar eu trefniadau i osgoi sefyllfa gyffelyb godi eto.

3 Carneddi – Roedd y pwyllgor wedi trafod y ffaith bod y nifer o bentyrrau cerrig ar ein mynyddoedd yn cynyddu, llawer ohonynt i weld yn ddiangen. Cysylltwyd ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyda'r cynnig efallai y gallai'r aelodau'r Clwb fod o gymorth i ddatrys y broblem. Ateb wedi ei dderbyn bod y cyrff yma yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn rhoi sylw iddo. Sôn hefyd bod rhai o'r pentyrrau yma wedi eu creu yn ddiweddar ond eraill wedi eu cofrestru fel olion archeolegol ac felly roedd rhaid bod yn ofalus wrth ddelio hefo'r mater.

4. Trafododd y pwyllgor y fforwm a'r diffyg defnydd ohoni; cytunwyd fod angen annog yr aelodau i wneud mwy o ddefnydd ohoni.

5. Mater arall drafodwyd oedd tâl aelodaeth y Clwb a fyddai yn cael ei drafod o dan adroddiad y Trysorydd.

## **5. Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau.**

Adroddodd ei bod yn bwysig pwysleisio mai cyfrifoldeb sy'n cael ei rannu yw'r cyfrifoldeb o drefnu gweithgareddau'r clwb. Mae wedi ei rannu efo tri cyd-lynnydd sef Dewi Hughes sy'n gyfrifol am deithiau'r de, Haf Meredydd sy'n gyfrifol am y rhai dydd Mercher ac Arwel Roberts sy'n gyfrifol am y dringo. Mae'n cael ei rannu hefyd efo'r rhai sy'n gwirfoddoli i drefnu ac arwain gweithgareddau – 46 o wahanol unigolion eleni. Roedd yn ddiolchgar dros ben iddynt a diolchodd iddynt hefyd ar ran y clwb a'i aelodau. Llynedd 7 o fenywod a arweiniodd weithgaredd; roedd y ffigwr wedi codi eleni – ond dim ond i 9!

Trefnwyd 57 o wahanol deithiau neu weithgareddau yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Roedd 26 o deithiau cerdded yn y gogledd, 12 yn y de ac 11 ar ddydd Mercher. Yn ogystal, trefnwyd tair taith feicio - dwy ar feiciau mynydd dros y Migneint ac yn ardal Brenig ac un yn Llŷn ac Eifionydd – a chafwyd ymarfer map a chwmpawd dan gyfarwyddyd Myfyr yn Nhrawsfynydd. Cafwyd noson gymdeithasol ddifyr dros ben gyda bwyd rhagorol yng nghaffi Gwynant ym mis Hydref; diolch i Sian am drefnu. Cafwyd tair taith dramor – i'r Alban, i'r Iwerddon ac i Loegr a chynhaliwyd ail Ddarlith Llew Gwent yn yr Eisteddfod yn Llanelli.

Torrwyd record y clwb, dros y cyfnod diweddar, beth bynnag, pan ddaeth 46 i Lanbedrog ar fore Mercher bendigedig ym mis Ebrill. Ar y llaw arall, bu'n rhaid canslo'r daith dros nos ar y Glyderau oherwydd rhagolygon tywydd anffafriol ac ni ddaeth neb i deithiau Cwm Prysor na'r Tarennau, y tywydd eto oedd y prif reswm. Ond, gyda thwrch aelodaeth y Clwb yng Nogledd Gwynedd, Môn a Chonwy mae'r niferoedd ar deithau ymhellach o ganol Eryri yn is, nid bod hynny'n reswm i beidio â threfnu teithiau ym Meirionnydd, yng Nghlwyd neu ar y Berwyn.

O ran ffigyrau, cafwyd cyfartaledd o 10 ar y teithiau Sadwrn ond dros 26 ar y teithiau dydd Mercher. Mae'r nifer yn codi wrth i fwy a mwy ohonom ymddeol a chael ein traed yn rhydd ganol wythnos! A ddylid felly drefnu mwy o deithiau byrrach, ar fwy nac un Mercher y mis efallai neu ar y Sadyrnau hefyd? Fel Clwb Mynydda Cymru, credai Eryl fod pwyslais o hyd ar deithiau mynydd ond ni fyddai gennyf unrhyw wrthwynebiad i ychwanegu at y rhaglen. Un diwrnod llwyddiannus iawn a gafwyd oedd y daith o Nant Gwynant, drwy Gwm Llan i Ryddu ac yna'n ôl i Feddgelert gyda chyfle i rai ddringo'r Aran hefyd; roedd yn ddiwrnod a oedd yn plesio'r rhai oedd eisiau cyrraedd copa a'r rhai oedd yn hapus gyda thaith fwy cymhedrol.

Nid oes cynnydd yn y teithiau byr dros gyfnod y rhaglen nesaf, o hyn i fis Mawrth. Hwyrach y byddai'r teithiau byrrach hyn yn apelio mwy yn ystod y gwanwyn a'r haf felly gobeithia Eryl fedru cynnwys mwy ohonynt bryd hynny a gobeithio y bydd cynigion i arwain teithiau o'r fath.

Ychydig iawn a arhosodd yn Rhyd Ddu ddechrau Ionawr eleni er bod 13 wedi cyrraedd copa'r Wyddfa ar y dydd Sadwrn. Penderfynwyd felly beidio â threfnu penwythnos tebyg yn 2015. Daeth tua'r nifer arferol o rhyw ddau ddwsin i'r Alban ym mis Chwefror; Maldwyn sy'n parhau i drefnu'r wythnos hon, llawer o ddiolch iddo. Cafwyd wythnos wych yn ne orllewin Iwerddon hefyd; buom yn hynod ffodus o ran y tywydd a llawer o ddiolch i'n cyn-gadeirydd, Rhys Dafis am drefnu. Daeth 18 i Keswick hefyd ym mis Medi; mae awydd i wneud penwythnos oddi cartref ym Medi yn elfen barhaol o raglen o clwb gan fynd, efallai, i ran wahanol o Loegr neu o bosib i Dde Cymru.

Gobeithir hefyd y bydd mwy o weithgareddau dringo – mae un wedi ei drefnu, gyda diolch i Arwel, ym mis Mawrth. Wrth gwrs, ychydig sy'n gallu neu'n fodlon arwain dringo felly mae'n anos ei drefnu. Ond gobeithio hefyd y gall y clwb fod yn gyfrwng i aelodau sydd eisiau dringo i gysylltu â'i gilydd a threfnu i gyfarfod pan yn gyfleus iddynt.

Nododd Eryl ei fod bob amser yn croesawu sylwadau, gan gynnwys beirniadaeth os oes awgrymiadau ar gyfer sut y gellir gwella'r ddarpariaeth. A byddwch, os gwelwch yn dda, yn frwdfrydig o barod i gynnig arwain a threfnu dros y flwyddyn sydd i ddod.

## **6. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan.**

Yn anffodus nid oedd lolo ap Gwynn yn gallu bod yn bresennol

## **7. Adroddiad y Trysorydd.**

### i. Adroddiad Ariannol 2013-2014

Cyflwynwyd adroddiad ariannol ar gyfer 2013-2014. Adroddwyd bod sefyllfa ariannol y Clwb yn iach a bod y cyfrifon yn dangos bod swm o £8,209.20 yn y banc.

Cytunwyd 1. Derbyn y cyfrifon ar gyfer 2013-2104

2. Gofyn i'r Trysorydd oleuo'r aelodau ynglyn a'r anghysondeb a ymddengys hefo'r ffigyrau ar gyfer y costau ynghlwm a'r daith i'r Alban eleni

### ii. Tâl Aelodaeth

Adroddwyd fod y Cyngor Mynydda Prydeinig wedi penderfynu cynyddu'r taliadau a wneir gan glybiau ar ran eu haelodau o'r £11.95 yr aelod presennol i £13.25. Yn sgil hyn penderfynodd y pwyllgor argymhell i'r cyfarfod ystyried codi tâl aelodaeth y clwb o'r £15 presennol y flwyddyn i £20.

Cytunwyd yn sgil y ffaith fod y Trysorydd wedi adrodd yn ei adroddiad ariannol fod gan y clwb swm sylweddol o arian wrth gefn a oedd yn cynyddu yn flynyddol, beidio â derbyn argymelliad y pwyllgor i gynyddu tâl aelodaeth y clwb.

Teimliwyd y gellid cadw at hyn am 2 neu 3 blynedd a gweld beth fyddai sefyllfa ariannol y clwb erbyn hynny o safbwynt y swm o arian sydd wrth gefn ac y gellid cynyddu y tâl aelodaeth i £20 bryd hynny.

## 8. Swyddogion y Clwb

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2015:

**Trysorydd** : Gareth E Roberts

**Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth** : Iolo Roberts

**Ysgrifennydd Gweithgareddau** : Eryl Owain

**Ysgrifennydd y Wefan** : Iolo ap Gwynn

## 9. Aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2015

Adroddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth ei fod wedi derbyn enwebiadau ar gyfer gwasanaethu ar y pwyllgor yn 2015. Yn sgil hynny, cadarnhawyd y canlynol i wasanaethu ar y Pwyllgor yn 2015:

Richard Roberts  
Sian Shakespear

Cadeirydd  
Is-Gadeirydd

Gareth E Roberts  
Eryl Owain  
Iolo ap Gwynn  
Iolo Roberts

Trysorydd  
Ysgrifennydd Gweithgareddau  
Ysgrifennydd y Wefan  
Ysgrifennydd Cyffredinol

Dewi Hughes  
Elen Huws  
Myfyr Thomas  
Eirwen Williams  
Gwyn Williams (Llanrwst)  
Mark W Williams  
Sian Williams

Diolchwyd i Rhys Dafis, Anita Daimond, Sioned Ll Jones a John Parry, aelodau a oedd yn sefyll i lawr am eu cyfraniad i waith y pwyllgor

## 10. Archwilydd

Penodwyd George Jones fel **Archwilydd**.

## 11. Unrhyw Fater Arall

Ni ddaeth unrhyw gais i law i drafod pwnc penodol.

## 12. Trafodaeth Agored

Mynegodd nifer o aelodau y farn nad yw nifer o'r lluniau a ddangosir ar dudalen flaen y Clwb yn rhoi delwedd bositif o weithgareddau'r Clwb i ddarpar aelodau newydd. Teimlwyd y dylid cael lluniau a fyddai yn rhoi delwedd mwy positif o weithgareddau'r clwb yn arbennig i rai iau

### Llongyfarchiadau

I gloi'r Cyfarfod, ar ran yr aelodau, llongyfarchodd y Cadeirydd Mari Gwent (merch Llew) ar enedigaeth diweddar ei mab - Malan ac Alwen a Ceri sydd bellach yn rieni i efeilliad Mari a Gruffydd

-----

Ar ol y cinio blynyddol cafwyd cyflwyniad o sleidiau gan Gwyn Roberts am ei anturiaethau yn yr Antartig dechrau'r flwyddyn. Roedd wedi cael cynnig lle ar drip caiacio 5 wythnos wedi i unigolyn arall dynnu yn ôl ac ond wedi cael 3 diwrnod (dros gyfnod y Dolig) o rybudd i hel ei bac at ei gilydd ac i drefnu hedfan i ben draw'r byd. Fe lwyddodd i drefnu pob dim ac fel a welwyd o'i sleidiau gwych roedd wedi cael profiad cyffrous ac wedi gweld rhyfeddodau o safbwynt y tirluniau a'r bywyd gwyllt allan yno.

Ar ran yr aelodau diolchodd Richard i Gwyn am gyflwyniad hynod ddifyr.